

## **COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o ORFFENNAF 2015 YN FESTRI SALEM, PEDAIR HEOL AM 7.00.**

**Presennol:** Geraint Rosser (yn y gadair), Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Wendy Evans, Alan Lewis, Heddwyn Jones, Aled Williams, Richard Thomas, Meic Bowen, Ellis Jenkins, Geoff Hewitt a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Carrie Rees.

### **Materion Personol**

**1192** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

#### **1193 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 1/06/2015 fel rhai cywir.

#### **1194 Materion yn codi.**

Tud. 1 Cofnod Rhif 1126 - Safle Gorsaf Pontiets. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ein bod yn gwneud cais am grant o'r Loteri Treftadaeth a hefyd o Gronfa Eglwysi Cymru.

### **Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1195** Sioe Llandyfaelog -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**1196** Bethel Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

**1197** Seindorf Arian Crwbin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

**1198** Salem Pedair Heol – Gan nad oedd cyfraniad wedi ei gwneud yn 2014/15 penderfynwyd danfon rodd o £600.

#### **Alan Lewis, Is-gadeirydd yn y gadair**

*Cynghorwyr Wendy Evans, Tyssul Evans, Geraint Rosser Ian Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1199** Ysgol Gwynfryn – Adeiladu Canopi newydd yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £3000.

*Wendy, Tyssul, Geraint, Ian ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

#### **Geraint Rosser, Cadeirydd yn ôl yn y gadair**

Gohebiaeth gyffredinol :-

**1200** Cyngor Sir Gar - Enw Stryd yng Ngharwe - Nodwyd na fydd enw 'Heol Trimsaran' i'w ddangos ar Geisiadau Cynllunio yn y dyfodol.

**1201** Cyngor Sir Gar - Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. - Awdurdodwyd y Clerc i wneud cais ar ein rhan wrth Ysgol Carwe.

**1202** Cyngor Sir Gar – Cais am Olyngiad – Nodwyd y Llythyr.

**1203** Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant yn Neuadd Ddinesig San Pedr, Caerfyrddin, 17/08/15.- Nodwyd y bydd y Cadeirydd yn mynychu'r Cyfarfod.

**1204** Cyswllt Coedwig Brechfa - Hysbysiad o dderbyn cais am orchymyn caniatâd datblygu - Nodwyd y Llythyr.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**1205**

Ceisiadau Cynllunio:

- Mr David Jones – Halfway House,Pontantwn – Tystysgrif Datblygiad - Dim Gwrthwynebiad.
- N.Rees – Llwynhelig,Heol Trimsaran,Carwe – Cynlluniau Manwl – Dim Gwrthwynebiad
- Mrs Cheryl Thomas – Gelli Gatrog,Pontantwn – Adeilad Amaethyddol – Dim Gwrthwynebiad.
- Miss Haynes - Tŷ Gwydr - Fferm Pen Rhas,Ponthenri - Dim Gwrthwynebiad.

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

**1206** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Mehefin.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

**1207** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-  
**a)** Cyflog y Clerc - £350.44 (Mis Mehefin)  
**b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)  
**c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr – £89.19 (Mis Mehefin)  
**ch)** HMRC (Treth)- £70.00 (Mis Mehefin)  
**d)** 'Norton Security' i'r Cyfrifiadur - £44.99  
**dd)** Ciran Griffiths, Gwaith ar Lwybr Treftadaeth Pontiets- £75.00  
**e)** 'Top-up Ffon Symudol - £20.00  
**f)** Star Forge Fabrications – Gwaith ym Marc Pontiets – £2201.90

*Cynghorwyr Tyssul Evans ac Ellis Jenkins yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1208 Swyddfa'r Cyngor**

Cafwyd adroddiad gan y Clerc a darllenwyd llythyr oddiwrth Pwyllgor Neuadd Les Pontiets yn datgan bod Ystafell y Llofft ar gael fel Swyddfa ag Ystafell Cyfarfod i'r Cyngor. Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn llogi'r Ystafell at waith y Cyngor ar gost flynyddol o £2000.

*Tyssul ac Ellis yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**1209 Gwyliau Mis Awst**

Gan na fydd Cyfarfod o'r Cyngor ym Mis Awst rhoddwyd awdurdod i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i ddelio a materion brys ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym Mis Medi.

**1210 Cyfethol Cynghorwr**

Penderfynwyd cyfethol Mrs Margaret Rees,Ffrwdwen,Crwbin fel Cynghorwr yn cynrychioli Ward Llangyndeyrn.

## **Materion Cynghorwyr**

**1211** Meic

- Penderfynwyd ad-dalu'r gost o £17.99 am y rhodd a gyflwynwyd gan Gôr Glannau'r Gwendraeth ar eu taith ddiweddar.

**1212** Richard

- Gofyn i Gyngor Sir Gar trashio a thorri Coed yn y Gymuned yn gyffredinol.
- Gofyn i Gyngor Sir Gar am arwyddion ffordd ym Mhontantwn tuag at Langyndeyrn a Llandyfaelog.
- Gofyn i Nigel Francis o'r Cyngor Sir torri'r coed o amgylch golau ym Mhontantwn

**1213** Tyssul                    Cysylltu â'r Heddlu ynglŷn â Thacsis yn parcio yn anghywir ar Heol y Meinciau

**1214** Alan                        Cysylltu ag Emyr Jones, Adran Trwyddedu'r Cyngor Sir ynglŷn â'r Tacsis sydd yn parcio ger Heol Bancyroffis.

**Cyfarfod nesaf:- 14 o Fedi 2015 yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch.  
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**